# A yw eich ceiliog yn canu gormod??

**Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael llawer o gwynion bob blwyddyn ynglŷn â cheiliogod yn canu.**

**Rydym yn deall bod canu yn beth naturiol i geiliog ei wneud, ond os bydd yn digwydd yn ystod oriau mân y bore neu am gyfnodau hir yn ystod y dydd, gallai hynny darfu ar eich cymdogion a chael ei ystyried yn Niwsans Sŵn Statudol fel y'i diffinnir gan adran 79 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Gall hyn fod yn arbennig o wir os yw'r ceiliog yn cael ei gadw mewn ardal breswyl adeiledig, lle mae'r achwynwyr yn byw yn agos at y ceiliog.**

**Bwriad y daflen hon yw darparu camau ymarferol er mwyn sicrhau bod eich ceiliogod yn cadw cyn lleied o sŵn â phosibl.**

## Clywed bod eich ceiliog yn canu gormod:

**Rydym yn sylweddoli efallai y byddwch yn grac a/neu'n ypset pan fyddwch yn clywed i ddechrau fod cwyn wedi'i gwneud mewn perthynas â'ch ceiliog yn canu gormod. Mae'n bosibl y cewch wybod am y gŵyn gan eich cymydog a/neu'r Awdurdod Lleol.**

**Efallai mai hwn fydd y tro cyntaf y byddwch yn ymwybodol bod eich ceiliog yn canu gormod, felly ceisiwch beidio â chynhyrfu os bydd hyn yn digwydd. Ceisiwch ystyried y sefyllfa o safbwynt yr achwynydd.**

### Camau i'w cymryd i geisio lleihau'r sŵn gymaint â phosibl....

- Yn gyntaf, ystyriwch a oes angen y ceiliog arnoch ai peidio. Mae'n gamdybiaeth yn aml bod yn rhaid cael ceiliogod er mwyn i ieir allu dodwy wyau, ond nid yw hyn yn wir.
- Gwnewch yn siŵr bod y ceiliog mor bell â phosibl o gymdogion
- Gwnewch yn siŵr bod y cwt mor dywyll â phosibl er mwyn sicrhau bod y ceiliog yn cadw cyn lleied o sŵn â phosibl yn gynnar yn y bore
- Gostyngwch nenfwd y cwt i atal y ceiliog rhag taflu ei ben yn ôl a chanu.
- Gwnewch yn siŵr bod y cwt y mae'r ceiliog yn cael ei gadw ynddo yn seinglos.
- Gall cael mwy nag un ceiliog achosi iddynt gystadlu â'i gilydd a gwneud mwy o sŵn.
- Cadwch y ceiliog yn y cwt yn ystod y nos a hyd amser rhesymol yn ystod y bore, e.e. 7:30am yn ystod yr wythnos ac 8:00am ar y penwythnos.



Cofiwch, mewn rhai achosion, y gallai'r man lle mae'r ceiliog yn cael ei gadw fod mor anaddas (h.y. mor agos at eiddo preswyl) fel na fydd yr un o'r mesurau uchod yn ddigonol i leihau sŵn y ceiliogod. Os felly a bod eich ceiliog yn tarfu ar eich cymdogion, yna dylid ystyried cadw eich ceiliog mewn man arall.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth neu gyngor ar y matter mae croeso i chi gysylltu â ni yn yr adran Diogelu'r Amgylchedd ar:


**01267 234567**

**diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk**

**Ty Parcyrhun, Ffordd Y Rhyd, Rhydaman, Sir Gâr SA18 3FB**


Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

SR-45503